

DAVIS (TEULU), Hirwaun, Aberdâr, a Ferndale, perchnogion glofeydd.

DAVIS, DAVID, hyn. (1797 - 1866)

nab Wm. David Jeffrey a Margaret (Lewis), ganwyd 1797 yn Llandeusant, Sir Gaerfyrddin. Bu'n brentis i'w ewythr ar ochr ei fam, Lewis Lewis, groser a brethynnwr ym Merthyr Tudful. Yna agorodd ei siop ei hun yn Hirwaun ac yn fuan wedyn priododd Mary Lewis. Yn ôl pob tebyg yr oedd hi'n ferch i Thos. Lewis, ewythr arall iddo. Llwyddasant, a chodi adeiladau mwy: magasant 5 mab a 5 merch, ac yr oeddent yn brif gynhelliad achos newydd y Wesleaid Cymraeg yn Hirwaun. Fel y deuai'r plant i'w hoed, gallodd David adael y siop yng ngofal ei wraig a'i blant; agorodd lefel lo fechan ar Gefn Rhigos, a daeth hyn ag incwm ychwanegol iddo. Gwerthwyd y gwaith hwn gyda'i borthfa yn Llansawel yn 1847, o ymhell cwn hynny cymerasai Davis les ar wythiennau glo-ager gwerthfawr ar ystad Blaen-gwawr, Aberaman, ac agorodd bwlw yno yn 1843. Er mwyn cario'r glo i Gaerdydd, defnyddiodd yn gyntaf (1845) y gamlas ac yna (1847) y Taff Vale Railway. Gadawodd y siop yn Hirwaun yng ngofal ei ail fab Lewis (isod) a rhoes ei fab hynaf, David (isod) mewn siop yn Abercynon, Aberdâr. Gan fod nifer o'i weithwyr wedi mudo o Hirwaun i weithio ym Mlaen-gwawr, parodd godi yn 1850 y capel Wesleidd Cymraeg presennol yn Aberdâr. Hyd yn hyn trigasai yn Hirwaun, o tua 1851 dechreuodd agor pwlw newydd yn Abercwmboi, ymhellach i lawr y cwm. Yna gadawodd Hirwaun a chodi tŷ iddo ei hun ym Mlaengwawr, gan roddi'r gorau i'r siop yn Nhrecynon, a chodi tŷ, Maes-y-fynnon, i'w fab, David. Yr oedd hwnnw erbyn hyn wedi dyfod ato i arolygu'r gweithiau glo. Yn fuan wedyn gwerthwyd y siop yn Hirwaun, a rhoddwyd Lewis Davis yng Nghaerdydd i ofalu am werthu'r glo. Troes David Davis, hyn., ei sylw at y Rhonda Fach, lle nad oedd prin lwybr na neb wedi gweithio ar ei hadnoddau. Ar ôl ymdrechion costus ond di-fful, trawodd ôl diwedd ar wythien dda yn y fan a elwir yn awr Ferndale. Bu raid cyrchu'r offer angenrheidiol ar gefn ceffylau o Aberdâr yr ochr draw i'r mynydd. Yn 1865 agorodd Davis a pherchnogion eraill ddoc newydd ym Mhenarth, fel protest yn erbyn y costau trymion a godid yn nocioau Bute yng Nghaerdydd. Ar ddechrau 1866 daeth a'i feibion, David, Lewis, Frederick a William, i'r bartneriaeth i 'Davis & Sons'. Bu farw yr un 14fed Mawrth 1866, yn 69 oed, a'i gladdu ym mynwent S. Ioan, Aberdâr; bu farw ei weddwr 11 Mee 1877.

Ar ôl ei farwolaeth agorodd y ffyrm byllau eraill yn Ferndale. Ymddeolodd William Davis yn 1867 a bu farw Frederick Davis yn 1876. Parhawyd y gwaith gan y ddau frawd arall.

Yr oedd David Davis, ieu. (1821 - 1884) yn rwy o ddyn cyhoeddus na'i dad. Bu iddo ran amlwg ym mherswadio **Henry Richard** i sefyll etholiad seneddol ym Merthyr Tudful ac Aberdâr (1868) ac fel Lewis ei frawd cadodd wahoddiad i ddwyfod yn ymgeisydd seneddol iwan ymdeolodd **Richard Fothergill** (III) yn 1880. Yr oedd yn feistr da, cadwodd weithiau gŵl Davis yn agored trwy gydol y ' cŵl allan ' yn 1875, ac yn ddiweddarach daeth yn is-gadeirydd y Bwrdd Cymodi dan **H. H. Vivian**. Rhoes gynnig ar ddatblygu chwareli ym Meirionnydd, a bu'n uchel siryf y sir honno. Yr oedd ganddo dŷ yn Arthog, ac yno y bu farw ei wraig yn 1880. Yn Aberdâr chwaraeodd ran flaenllaw yn y bywyd cyhoeddus, yn enwedig ynglŷn âg addysg. Cyfrannodd yn hael at y colegau prifysgol yn Aberystwyth a Chreiddydd. Yr oedd ei dad wedi glynu'n glos trwy ei oes wrth y prif gyfundeb Wesleiaidd, ond tynwyd David Davis (ieu.) i mewn i'r ymrafael a arweiniodd, yn ardal Aberdâr, i ymddangosiad byr-hoedlog y cyfundeb Wesleiaidd diwygiedig (**gweler dan Jones, William**. Cododd gapel i'r rhain yn Aberdâr, a ddaeth yn ddiweddarach yn achos Annibynnol. O'i ferched priododd Mary yr hynaf, ag **H. T. Edwards**, ficer Aberdâr, deon Bangor wedi hynny; priododd yr ail, Katherine, a **Syr Francis Edwards**.

Bwriadwyd Lewis Davis (1829 - 1888) ar gyfer y gyfraith, ond, fel y dywedwyd eisoes, fe'i tynnwyd i mewn i bethau ei dad. Yn 1867 ymgartrefodd yn Ferndale. Yr oedd yn ŵr tra chrefyddol, ac yn gefn mawr i Wesleaeth yn Ferndale a Chaerdydd - gweler ei gofiant, *A Noble Life*, gan [David Young](#). Gydai'i frawd, a hefyd [David Davies](#), Llandinam, hyrwyddwyd wreunwyr y Barry Dock and Railway (pasiwyd y Mesur 1864, agorwyd y doc 1889) er mwyn torri ar fonopoli y Bute Docks a'r T.V.R. Aethai i fyw i'r Mwmbwls, lle y bu farw 1 Ionawr 1888. Daeth ei fab, Frederick Lewis Davis, (1883 - 1920) yn olynydd iddo fel cyfarwyddwr ei weithiau glo.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

Elizabeth Phillips, *A history of the pioneers of the Welsh coalfield* (1925), 1925

Charles Wilkins, *The South Wales Coal Trade and its Allied Industries, from the Earliest Days to The Present Time* (Caerdydd 1888), 1888

History of the Barry Railway Company, 1884-1921 (Caerdydd 1923), 1923

Yr Eurgrawn Wesleyaidd (yn enwedig 1854-66)

Tarian y Gweithiwr

Cardiff and Merthyr Guardian (1845 ymlaen)

Aberdare Times,

Western Mail

a'r *South Wales Daily News*

a chyfeiriadau gwasgaredig eraill

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804690

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION

